| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Dyddiad :** | **24 Ionawr 2018** |
| **Teitl yr Adroddiad :** | **Grant Caru Amlwch** |
| **Pwrpas yr Adroddiad :** | **I gytuno ar newid i delerau dyfarnu Grant** |
| **Adroddiad Gan :** | **Trysorydd - Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Gweithrediad :** | **Penderfynu a ddylid cadarnhau'r dyfarniad grant i Grŵp Cymunedol Amlwch, er bod tymor y Lês ond am 5 mlynedd** |

Ar 12 Gorffennaf 2017, penderfynodd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddyrannu £4,200 i Grŵp Cymunedol Amlwch ar gyfer datblygu darn o dir ar gyfer rhandiroedd. Roedd y dyfarniad grant yn amodol ar dderbyn dyfynbrisiau a phrawf o berchnogaeth neu brydles ar y tir.

Mae Adran 2.1 paragraff (c) o'r amodau ar gyfer dosbarthu grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn datgan 'Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas / corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sydd o leiaf 21 mlynedd. Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol. Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth'.

Cynigwyd darn o dir i Grŵp Cymunedol Amlwch gan Gyngor Sir Ynys Môn, fodd bynnag, yn dilyn ymchwiliad pellach, mae'r Cyngor Tref yn credu y gallai fod yn dir llygredig. Gan eu bod yn bwriadu tyfu llysiau a ffrwythau yna, penderfynwyd nad oedd y safle'n addas. Yn ddiweddarach, daeth y Grŵp o hyd i dir preifat y mae'r perchennog yn barod ei brydlesu i'r Grŵp. Byddai'r tir yn cael ei brydlesu i'r Grŵp am daliad blynyddol isel ond mae'r tirfeddiannwr ond yn barod i gynnig prydles cychwynnol am 5 mlynedd, er gall y cyfnod yma gael ei ymestyn wedi hynny.

**PENDERFYNIAD SYDD EI ANGEN**

I ddyfranu grant o £4,200 i Grŵp Cymunedol Amlwch, fel a gafoedd ei ddyrannu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ar 12 Gorffennaf 2017, er na fydd tymor y lês ond am 5 mlynedd yn unig a dim yr 21 mlynedd a nodir o fewn amodau'r grant.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **17 IONAWR 2018**